# PEIRIANNEG L1/2

**Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC mewn Peirianneg**

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y Cymhwyster:** Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC mewn Peirianneg
**Corff Dyfarnu:** CBAC

### Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster hwn i ddysgwyr 14-16 oed sy'n dymuno meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ac ennill profiad o gymhwyso sgiliau yn ymarferol mewn Peirianneg. Mae'n darparu cyflwyniad eang i'r sector beirianneg i ddysgwyr, a'r mathau o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael. Gallai llwybrau gyrfa o ddiddordeb gynnwys: Ffiseg, Dylunio a Thechnoleg, Diplomâu mewn Peirianneg, Prentisiaethau mewn Peirianneg.

### Beth fydd y cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster wedi'i ddyfeisio o amgylch y cysyniad o ddull 'cynllunio, gwneud, adolygu' tuag at ddysgu lle mae dysgwyr yn cael eu cyflwyno i gyd-destun ar gyfer dysgu ac adolygu dysgu blaenorol i gynllunio gweithgareddau, cynnal gweithgareddau ac adolygu deilliannau a dysgu. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu prosesau cynhyrchu a dylunio peirianneg a darparu dysgu mewn ystod o gyd-destunau hefyd i alluogi dysgwyr i gymhwyso ac estyn eu dysgu. O'r herwydd, mae'r cymhwyster yn rhoi gwerthfawrogiad eang i ddysgwyr o waith mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â pheirianneg a chyfleoedd ehangach i symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

### Cynnwys y Cwrs

Mae strwythur a chynnwys Dyfarniad Galwedigaethol CBAC mewn Peirianneg yn cynnwys tair uned orfodol. Yn dilyn yr unedau hyn bydd dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau i ddatblygu, dadansoddi a defnyddio eu gwybodaeth fel a ganlyn:

- datblygu sgiliau i gynllunio a chynhyrchu cynnyrch peirianyddol, datblygu sgiliau i weithio'n ddiogel o fewn ystod o brosesau, offer a chyfarpar peirianneg. (Uned 1)
- dysgu sut i ddadansoddi cynnyrch a sut i gynnig datrysiadau dylunio. (Uned 2)
- defnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a deunyddiau peirianyddol i ddatrys problemau. (Uned 3)
- deall sut mae peirianwyr y gorffennol wedi dod o hyd i atebion sy'n cael eu defnyddio i ddatrys problemau heddiw. (Uned 3)
- dysgu am ddeunyddiau, prosesau a'r fathemateg sy'n cael eu defnyddio gan beirianwyr heddiw. (Uned 3)
- dysgu sut i ddatblygu sgiliau lluniadu peirianneg i gyfleu datrysiadau. (Uned 3)

### Asesu

Caiff y cymhwyster Dyfarniad Galwedigaethol CBAC mewn Peirianneg ei asesu trwy gyfuniad o un arholiad ysgrifenedig, wedi'i osod a'i farcio gan CBAC a dau aseiniad wedi'u marcio gan y ganolfan a'u safoni gan CBAC.

### Costau

Mae disgwyl i fyfyrwyr ddarparu eu cyfarpar diogelu personol (PPE) eu hunain. Gellir ei brynu o sawl siop wahanol fel screwfix a toolstation neu ar-lein. Dylai'r PPE gynnwys esgidiau trwm, trowsus a chrys polo Coleg Cambria neu grys polo llwyd plaen neu oferôls llawn. Gallwch chi archebu crysau polo Coleg Cambria o'r ddolen hon: Peirianneg GE Tools